
# Adroddiad Sefyllfa Gwasanaethau Mamolaeth ar gyfer 2018 – Cymru



THE ROYAL COLLEGE OF MIDWIVES

Coleg Brenhinol y Bydwragedd
Hyrwyddo • Cefnogi • Dylanwadu

#sgm2018

Coleg Brenhinol y Bydwragedd Cymru (RCM), 8fed Llawr, Eastgate House, 35-43 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0AB
0300 303 0444 info@rcm.org.uk www.rcm.org.uk

# Crynodeb Gweithredol

Mae *Adroddiad Sefyllfa Gwasanaethau Mamolaeth* blynyddol Coleg Brenhinol y Bydwragedd (RCM) yn rhoi trosolwg ar rai o'r tueddiadau 'darlun mawr' a welir yn y gweithlu bydwreigiaeth ac yn tynnu sylw at rai o'r heriau sy'n wynebu'r proffesiwn a'n gwasanaethau mamolaeth. Eleni, am y tro cyntaf, mae'r RCM yn cyhoeddi adroddiadau unigol ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn hytrach nag un adroddiad ar gyfer y DU yn gyffredinol. Mae hynny wedi ein galluogi hefyd i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Bu lleihad o 2.3 y cant yn nifer y genedigaethau byw yng Nghymru y llynedd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn wir, mae nifer y genedigaethau wedi lleihau bob blwyddyn ers 2010, gan leihau 10.5 y cant yn gyffredinol ers canol y degawd diwethaf.

Mae hyn wedi lleihau'r pwysau ar y gwasanaeth, sy'n beth da. Dylai hyn greu mwy o le a chyfleoedd i wella ansawdd gofal i ferched.

Fodd bynnag, rhaid cydbwyso'r lleihad hwn yn nifer y genedigaethau â chynnydd yng nghymhlethdod y gofal y mae ei angen ar lawer o ferched. Er enghraifft, yn ôl yr hyn a gofnodwyd yn eu hasesiad cychwynnol, roedd 18.4 y cant o ferched beichiog yn 2015/16 yn ysmygwyr ac roedd 27.5 y cant yn ordew.

> "Mae cynnydd i'w groesawu wedi bod yng nghyfran y bydwragedd sydd yn eu hugeiniau a'u tri degau, a hynny o 31.2 y cant ym mis Mawrth 2011 i 40.9 y cant ym mis Tachwedd 2017."

Mae oed y merched sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn cael effaith hefyd. Ar gyfartaledd, bydd angen mwy o ofal a chymorth ar famau hŷn, ac mae angen rhoi ystyriaeth i hynny wrth wneud cyfrifiadau o ran y gweithlu. I roi darlun o'r sefyllfa, bu lleihad yn nifer y genedigaethau i ferched ym mhob categori oed o dan 30 mlwydd oed rhwng 2009 a 2017, ond bu cynnydd yn nifer y genedigaethau i ferched ym mhob categori oed dros 30 mlwydd oed.

Mae proffil oed merched a'r lefelau ysmygu a gordewdra yn enghreifftiau o natur gymhleth llwyth gwaith bydwragedd, gweithwyr cymorth mamolaeth a'r tîm gofal mamolaeth cyfan. Yr uchaf yw lefel y cymhlethdod, y mwyaf a ofynnir gan staff a bydd angen mwy o staff i ddarparu'r un lefel o ofal.

Mae rhywbeth diddorol yn digwydd o ran proffil oed bydwragedd hefyd. Mae cynnydd i'w groesawu wedi bod yng nghyfran y bydwragedd sydd yn eu hugeiniau a'u tri degau, a hynny o 31.2 y cant ym mis Mawrth 2011 i 40.9 y cant ym mis Tachwedd 2017. F odd bynnag, ar yr un pryd, mae cyfran y bydwragedd sydd yn eu pum degau a'u chwe degau wedi parhau i gynyddu, o 27.9 y cant i 34.5 y cant dros yr un cyfnod. Mae'r lleihad eithaf sylweddol yng nghyfran y bydwragedd yn eu pedwar degau, o 41 y cant i 24.6 y cant, yn esbonio hyn.

Mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn ffodus o gael y bydwragedd sydd yn y categorïau hŷn. Yn y mwyafrif o achosion, byddant wedi rhoi blynyddoedd maith o wasanaeth i'r GIG ac yn dod â phrofiad sylweddol iawn i'w rolau. Ond, yn anochel, maent yn dechrau agosáu at oed ymddeol ac mae angen inni weithredu mewn da bryd cyn iddynt adael y gwasanaeth.

Yn 2017/18, cynyddodd Llywodraeth Cymru nifer y lleoedd hyfforddiant ar gyfer myfyrwyr bydwreigiaeth i 134, sef cynnydd o 40 y cant ar y flwyddyn flaenorol. Yn sicr, rydym yn croesawu'r penderfyniad i gynnal y lefel uwch hon o leoedd yn y flwyddyn academaidd gyfredol. Ymhen amser, dylai hyn gyflymu'r broses o adfer cydbwysedd ym mhroffil oed y proffesiwn bydwreigiaeth.

> "Mae'r newid ym mhroffil oed mamau yn parhau i gynyddu'r pwysau ar y system…Ac mae colli bydwragedd o'r UE, yn enwedig yn Lloegr, yn creu'r perygl y bydd y GIG dros y ffin yn ceisio denu bydwragedd o GIG Cymru."

Mae angen inni ystyried hefyd beth yw goblygiadau'r newidiadau hyn o ran proffil oed y gweithlu bydwreigiaeth. Mae cyfrifoldebau pobl yn tueddu i fod yn wahanol ar wahanol gamau o'u bywydau, o ymdopi â gofynion magu teulu ifanc i ofalu am rieni oedrannus, a'r tebygolrwydd uwch y byddant hwythau'n datblygu cyflyrau meddygol eu hunain yn y pen draw.

Mae Brexit yn creu bygythiad i'r gweithlu bydwreigiaeth yng Nghymru, ond nid yn y ffordd amlwg. Mae ffigyrau a ddarparwyd mewn atebion i gwestiynau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn awgrymu mai nifer gweddol fach o'r bydwragedd sy'n gweithio yng Nghymru sy'n dod o aelod-wladwriaethau eraill yr UE. Yn ogystal, mae'r nifer a adawodd gyflogaeth yn y GIG yng Nghymru yn y misoedd ar ôl refferendwm 2016 hefyd yn weddol isel.


Daw'r perygl os bydd bydwragedd o rannau eraill o'r UE sy'n gweithio yn Lloegr ar hyn o bryd yn gadael. O gofio bod y nifer hon ymhell dros 1,000, y perygl yw y bydd y GIG yn Lloegr – sydd â phrinder bydwragedd sy'n cyfateb i 3,500 o swyddi bydwragedd amser llawn – yn ceisio recriwtio fwy a mwy o Gymru. Gallai'r cynnydd sylweddol a chyflym yn y niferoedd sy'n hyfforddi i fod yn fydwragedd yng Nghymru fod yn ormod o demtasiwn i'r rhai sy'n recriwtio yn Lloegr.

Rydym yn gweld rhywfaint o welliant, ond mae heriau'n bodoli o hyd. Mae'r newid ym mhroffil oed mamau yn parhau i gynyddu'r pwysau ar y system. Er bod cyfran y bydwragedd yn eu hugeiniau a'u tri degau wedi cynyddu, mae gennym nifer sylweddol o fydwragedd sy'n agos at oed ymddeol o hyd. Ac mae colli bydwragedd o'r UE, yn enwedig yn Lloegr, yn creu'r perygl y bydd y GIG dros y ffin yn ceisio denu bydwragedd o GIG Cymru.

Edrychwn ymlaen at ymgysylltu yn ystod y flwyddyn nesaf i weld a allwn gynnal y gwelliannau rydym yn eu gweld a helpu i fynd i'r afael â'r heriau. Fe adroddwn yn ôl yn yr *Adroddiad Sefyllfa Gwasanaethau Mamolaeth* nesaf.



## Nifer y genedigaethau byw




Nifer y genedigaethau byw


*Ffynhonnell: StatsCymru*

**768**

**llai o fabanod a anwyd yng Nghymru y llynedd o'i gymharu â flwyddyn o'r blaenl**

*Ffynhonnell: StatsCymru*

## Nifer y genedigaethau yn y cartref




Nifer y genedigaethau yn y cartref


*Ffynhonnell: StatsCymru*

Roedd nifer y babanod a anwyd yng Nghymru y llynedd 768 yn llai nag ydoedd y flwyddyn flaenorol, sy'n lleihad o 2.3 y cant. Mae'r nifer wedi lleihau 3,797 (neu 10.5 y cant) ers iddo fod ar ei uchaf, sef 36,033, yn 2010, ac wedi dychwelyd i lefelau a welwyd ganol y degawd diwethaf.

Mae nifer y genedigaethau yn y cartref wedi lleihau'n gyflymach. Ganwyd 770 o fabanod yn eu cartrefi yn 2017, sef 88 yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol (lleihad o 10.3 y cant mewn blwyddyn yn unig). Roedd ffigwr y llynedd yn gwymp o 40.4 y cant (neu 521 o enedigaethau) ers iddo fod ar ei uchaf, sef 1,291, yn 2009.



## Genedigaethau yn ôl bwrdd iechyd lleol




Nifer y genedigaethau byw, 2009

Nifer y genedigaethau byw, 2017


*Ffynhonnell: StatsCymru*

Bu lleihad yn nifer y genedigaethau byw ym mhob rhan o Gymru rhwng 2009 a 2017. Nid yw'r lleihad yn nifer y genedigaethau yn y blynyddoedd diwethaf wedi cael ei ddylanwadu gan gwymp annodweddiadol mewn un ardal benodol.

Roedd y cwympiadau'n amrywio o bump y cant yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i 10 y cant yn ardal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (lle'r oedd y cwymp yn cyfateb i 11 yn llai o enedigaethau bob mis).



## Proffil oed mamau




Y newid yn nifer y genedigaethau byw, 2009–2017

*Ffynhonnell: StatsCymru*

Er bod nifer y genedigaethau yn gyffredinol yng Nghymru wedi lleihau, mae nifer y genedigaethau i ferched mewn grwpiau oedran hŷn wedi cynyddu. Ers 2009, mae cynnydd o 15 y cant wedi bod yn nifer y babanod a anwyd i ferched yn eu tri degau cynnar (30-34), yn ogystal â chynnydd o dri y chant yn nifer y babanod a anwyd i ferched yn eu tri degau hwyr (35-39) a merched 40 mlwydd oed neu hŷn.

Ar yr un pryd, mae nifer y babanod sy'n cael eu geni i bobl ifanc yn eu harddegau wedi mwy na haneru (i lawr 52 y cant). Mae nifer y genedigaethau i ferched yn eu hugeiniau cynnar (20-24) i lawr fwy na chwarter (28 y cant), a nifer y genedigaethau i ferched yn eu hugeiniau hwyr (25-29) wedi cwympo bedwar y cant.

**15%**

**y cant wedi bod yn nifer y babanod a anwyd i ferched yn eu tri degau cynnar (30-34)**


*Ffynhonnell: StatsCymru*

Ar gyfartaledd, bydd angen mwy o ofal ar ferched hŷn yn ystod beichiogrwydd a phan fyddant yn rhoi genedigaeth. Ni fydd hyn yn wir am bob merch hŷn, wrth gwrs, ond ar y cyfan mae yn ychwanegu at y cymysgedd o gymhlethdod y mae'n rhaid i wasanaethau mamolaeth ymdopi ag ef. Felly, mae'r ffaith fod proffil y merched sy'n defnyddio gofal mamolaeth yn heneiddio yn cynyddu nifer y bydwragedd sydd ei hangen ar y GIG yng Nghymru.


Fodd bynnag, nid oedd y tueddiadau a welwyd yn ffigyrau Cymru yn gyffredinol i'w gweld yn ffigyrau pob rhan o'r wlad. Er enghraifft, yn yr ardaloedd a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, ganwyd llai, nid mwy, o fabanod i ferched yn y ddau grŵp oedran hynaf (tri degau hwyr a hŷn). Ar y llaw arall, yn ardaloedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, roedd y codiadau yn niferoedd y genedigaethau i ferched yn y ddau gategori oed hynaf yn cyrraedd rhifau dwbl.

O ran proffil oed mamau, mae gwahanol batrymau'n datblygu mewn gwahanol rannau o Gymru, ond ar y cyfan - yng Nghymru yn gyffredinol - y stori yw llai o enedigaethau i ferched iau a mwy o enedigaethau i ferched hŷn.


### Y newid yn nifer y genedigaethau byw, 2009–2017 Bwrdd Iechyd




Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg




Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan




Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr




Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro



Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf




Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda



Bwrdd Iechyd Addysgu Powys



## Cyfraddau ysmygu a gordewdra yn ystod beichiogrwydd




% ysmygwyr

% gordew

*Ffynhonnell: Ystadegau Mamolaeth Cymru, 2015–16*

Mae gwahaniaethau eithaf sylweddol rhwng cyfraddau ysmygu a gordewdra y gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, roedd tua chwarter o'r merched yn ysmygwyr adeg eu hasesiad cychwynnol ac roedd tua thraean yn ordew, yn ôl eu hasesiad. Yn ardal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, ar y llaw arall, roedd tuag un ym mhob saith yn ysmygwyr a thuag un ym mhob pump yn ordew.

Fel sy'n wir am broffil oed merched, mae lefelau ysmygu a gordewdra yn ychwanegu at gymhlethdod llwyth gwaith bydwragedd, gweithwyr cymorth mamolaeth a'r tîm gofal mamolaeth cyfan. Yr uchaf yw'r lefelau cymhlethdod, y mwyaf yw nifer y bydwragedd ac aelodau staff eraill sydd eu hangen yn y gweithlu.


Y mwyaf y gellir ei wneud i wella lefelau iechyd da y boblogaeth yn gyffredinol, gan gynnwys lleihau lefelau ysmygu ac annog pobl i gadw pwysau eu corff o fewn yr amrediad iach, y lleiaf fydd y galw ar y GIG i ymdopi â'r effeithiau. Mae hyn cyn wired am wasanaethau mamolaeth ag y mae am bob rhan arall o'r gwasanaeth iechyd.

**89%**

**y cant o'r rhai a ddechreuodd eu hastudiaethau wedi eu cwblhau'n llwyddiannus**

*Ffynhonnell: StatsCymru*

## Bydwragedd a staff mamolaeth anfeddygol




Nifer yr holl staff bydwreigiaeth anfeddygol yn y GIG yng Nghymru (cyfwerth ag amser llawn)

Nifer y bydwragedd sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru (cyfwerth ag amser llawn)

*Ffynhonnell: StatsCymru*

Mae'r gweithlu bydwreigiaeth yng Nghymru wedi tyfu'n raddol yn y blynyddoedd diwethaf. Ers 2009, er gwaethaf lleihad ar ddechrau'r degawd hwn, rydym wedi gweld cynnydd sy'n cyfateb i 129 o fydwragedd amser llawn (cynnydd o 10.6 y cant) yn nifer y bydwragedd sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru. Ar yr un pryd, mae lleihad wedi bod yng nghyfanswm yr holl staff mamolaeth anfeddygol, er mai lleihad bach ydyw, sy'n cyfateb i 100 o staff amser llawn, neu 5.6 y cant.

Rydym yn gobeithio y bydd y twf hwn yn parhau, diolch i benderfyniad Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y lleoedd hyfforddi sydd ar gael i rai sydd eisiau bod yn fydwragedd. Bu cynnydd o 40 y cant yn nifer y lleoedd yn 2017/18, i 134, ac mae hyn wedi cael ei gynnal ar gyfer y flwyddyn academaidd 2018/19.

Yn ôl y ffigyrau diweddaraf sydd gennym, o'r 94 a ddechreuodd eu hyfforddiant bydwreigiaeth yn 2014/15, graddiodd 84 fel bydwragedd. Mae hynny'n golygu bod 89 y cant o'r rhai a ddechreuodd eu hastudiaethau wedi eu cwblhau'n llwyddiannus. Mae'n argoeli'n dda, felly, y bydd y cynnydd yn nifer y lleoedd hyfforddi yn golygu y bydd llawer mwy o fydwragedd newydd gymhwyso ar gael i weithio yn y GIG yng Nghymru.



Proffil oed, Mawrth 2011

Proffil oed, Mawrth 2016

Proffil oed, Tachwedd 2017


*Ffynhonnell: Gwybodaeth a ddarparwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrth ateb cwestiwn a ofynnwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru*

**40.9%**

**y cynnydd cyfrannol yn nifer y bydwragedd yn eu ugeiniau a'u degfed**

*Ffynhonnell: Gwybodaeth a ddarparwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrth ateb cwestiwn a ofynnwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru*

## Proffil oed bydwragedd




Mae newid sylweddol wedi bod ym mhroffil oed y proffesiwn bydwreigiaeth yng Nghymru yn ystod y degawd hwn. Gwelwyd newidiadau tebyg mewn rhannau eraill o Brydain.

Yn y gorffennol, rydym wedi bod yn pryderu am y gyfran o fydwragedd sydd yn y categorïau oed hynaf. Yn ôl ym mis Mawrth 2011, roedd ychydig dros chwarter o fydwragedd yn eu pum degau neu eu chwe degau (27.9 y cant). Ers hynny, mae'r gyfran hon wedi codi i tua thraean (34.7 y cant ym mis Mawrth 2016 a 34.5 y cant ym mis Tachwedd 2017).

Fodd bynnag, y pen arall i'r sbectrwm, mae cyfran y bydwragedd sydd yn y grwpiau oedran ieuengaf hefyd wedi codi. Ym mis Mawrth 2011, ychydig o dan un ym mhob tri (31.2 y cant) oedd yn eu hugeiniau neu eu tri degau. Erbyn mis Mawrth 2016, roedd y ffigwr hwn wedi codi i bron ddau ym mhob pump (37.2 y cant), ac yna i dros ddau ym mhob pump (40.9 y cant) erbyn mis Tachwedd 2017.

Mae cyfran y bydwragedd sydd yn eu pedwar degau, fodd bynnag, wedi cwympo, o ddau ym mhob pump ym mis Mawrth 2011 (41 y cant) i un ym mhob pedwar (24.6 y cant) erbyn mis Tachwedd 2017.

Mae'n ymddangos, felly, ein bod yn gwneud cynnydd o ran denu mwy o fydwragedd newydd i'r proffesiwn i gymryd lle'r nifer gynyddol sy'n agosáu at oed ymddeol, yn dilyn cynnydd yn y gyfran sydd yn eu hugeiniau a'u tri degau o 31.2 y cant i 40.9 y cant. Y gobaith yw y bydd y bydwragedd hyn yn rhoi sawl degawd o wasanaeth i'r GIG.

Ond nid yw'r her sy'n dod law yn llaw â gweithlu sy'n heneiddio wedi diflannu. Fel y mae'r ffigyrau'n ei ddangos, mae'r gyfran sydd yn eu pum degau a'u chwe degau wedi cynyddu yn ystod y degawd, o 27.9 y cant ym mis Mawrth 2011 i 34.5 y cant erbyn mis Tachwedd 2017. Ond bu mymryn bach o leihad yn y gyfran honno rhwng mis Mawrth 2016 a mis Tachwedd 2017, o 34.7 y cant i 34.5 y cant, felly efallai ein bod wedi cyrraedd trobwynt.

Felly, rydym yn croesawu'r cynnydd yn nifer y lleoedd hyfforddi sydd ar gael i fyfyrwyr bydwreigiaeth yng Nghymru gan y bydd hyn, gobeithio, yn parhau i sicrhau bod rhagor o fydwragedd newydd gymhwyso yn ymuno â GIG Cymru.